**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Hydref 2011**

**ALLDRO AMCANOL 2011-2012**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn ar gyfer rhoi'r alldro amcanol amcangyfrifedig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011-2012.

## Cyflwyniad

2 Mae'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau, neu amrywiadau a ddisgwylir, cyn gynted ag y byddant yn digwydd er mwyn gallu rhoi mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes risg ariannol i'r Awdurdod. Yr arwyddion presennol yw y bydd £296,027 o danwariant. Mae'r dadansoddiad manwl i'w gael yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariannau gyda'r arwydd (-).

3 Mae'r tanwariant amcangyfrifedig yn fach o'i gymharu â chyllideb sy'n £32miliwn, ac felly yr argymhelliad yw nad yw'r Aelodau'n gwneud dim ond nodi'r tanwariant ar hyn o bryd.

## Amrywiadau i'r Gyllideb

### Costau Gweithwyr

4 Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau, ac mae arwyddion y bydd tanwariant net ar gyflogau eleni.

5 Wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn, mae targed i gael £450k o arbedion, a chytunwyd ar hyn gan yr Aelodau yn ystod y broses o osod y gyllideb. Mae'r alldro amcangyfrifedig yn cadarnhau y gellir cael yr arbediad hwn; gwneir hyn trwy ymddeoliadau y gwyddom a fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn, ar y cyd â pheidio â recriwtio i'r ochr amser cyflawn.

6 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i'r ffaith fod nifer y gweithwyr y cyllidwyd ar ei chyfer yn uwch na'r nifer gwirioneddol; mae hyn oherwydd bod ymarferiad ailstrwythuro wedi arwain at swyddi gwag heb eu llenwi, ynghyd ag angen i wneud arbedion mewn blynyddoedd yn y dyfodol a fydd yn arwain at ddileu nifer o'r swyddi gwag hyn.

7 Mae'r tanwariant amcangyfrifedig ar ddiffoddwyr tân yn ôl y galw yn eithaf bychan, sef £52k. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol fod yr alldro'n seiliedig ar lefelau gweithgarwch cyfredol sy'n gymharol isel, ac os bydd nifer o ddigwyddiadau mawr dros y chwe mis nesaf, gallai'r gorwariant yn rhwydd droi'n ddiffyg mawr yn y gyllideb.

8 Mae'r gorwariant ar y pennawd Amrywiol yn y gyllideb oherwydd taliadau dileu swyddi a ddaw yn y flwyddyn na chyllidwyd ar eu cyfer; bydd y costau hyn yn cael eu gosod yn erbyn arbedion a geir mewn blynyddoedd i ddod oherwydd gostyngiad yn nifer swyddi staff cefnogol.

9 Mae'r costau sydd wedi eu cynnwys dan y pennawd Pensiynau Diffoddwyr Tân yn gostau pensiynau na ellir eu codi ar y Gronfa Bensiynau, ac maent yn cynnwys: taliadau pensiwn anafiadau; pensiynau afiechyd y system dyletswydd yn ôl y galw; a thaliadau lwmp-swm ar gyfer y system dyletswydd yn ôl y galw. Mae rhan o'r tanwariant amcangyfrifedig oherwydd taliad mawr o £75k fel lwmp-swm anafiadau; a bydd cyfraniad o'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau yn cael ei osod yn ei erbyn, - dangosir hyn ar dudalen olaf yr atodiad. Gellir rheoli'r gorwariant ychwanegol o fewn y gyllideb gyfredol o ystyried y sefyllfa alldro, ond os bydd amgylchiadau'n newid, gellid cwrdd â gweddill y tanwariant o'r gronfa wrth gefn ar gyfer pensiynau.

**Cludiant**

10 Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd gorwariant o £52k yn y gyllideb Cludiant. Mae hyn oherwydd y cynnydd yng nghostau tanwydd ac yswiriant cerbydau ers yr adeg pryd y gosodwyd y gyllideb wreiddiol yn ôl yn Rhagfyr 2010, gan arwain at gyllideb annigonol i ymorol am yr union wariant.

**Cyflenwadau**

11 Dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd tanwariant ar gostau Cyfathrebu oherwydd oedi wrth

gyflwyno’r gwaith datblygu sydd wedi arwain at arbediad ar gostau Firelink yn y flwyddyn gyfredol.

12 Mae’r tanwariant ar Gostau Cyfrifiaduron oherwydd cael system yn lle Unix, ac mae’n cynnwys costau caledwedd newydd. Penderfynwyd diweddaru’r system er mwyn cael arbedion tymor hir; bydd angen llai o waith cynnal a chadw ar y system newydd, a mewnbynnau sy’n llai llafurddwys ac a fydd yn arwain at arbedion o ran costau staff.

13 Mae’r gwariant ar Argraffu ac Offer Swyddfa wedi lleihau oherwydd newidiadau mewn arferion gweithio a bod yn fwy doeth wrth gaffael. Mae costau Diogelwch Tân hefyd wedi lleihau oherwydd atgyweirio llai o hydrantau na’r disgwyl oherwydd gordaliad yn y flwyddyn flaenorol.

14 Mae treuliau Cynadleddau a Chynhaliaeth wedi lleihau oherwydd y mesurau rheoli a roddwyd yn eu lle er mwyn lleihau gwariant yn hyn o beth.

**Gwasanaethau Cefnogol**

15 Bydd cynnydd mewn incwm oherwydd ffïoedd cyfalaf yn cael ei roi yn erbyn gorwariant amcangyfrifedig ar Reoli Cyfleusterau, a dangosir hyn yr adran ar incwm ar dudalen olaf yr atodiad.

**Cyllido Cyfalaf**

16 Amcangyfrifir bod y costau dyledion a gysylltir â’r rhaglen gyfalaf yn llai na’r gyllideb wreiddiol oherwydd y cyfraddau llog isel sy’n gwneud y gost o fenthyca’n llai nag a amcangyfrifwyd o’r blaen.

**Incwm**

17 Mae’r incwm am Alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na’r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y mae’r Awdurdod yn anfonebu amdanynt. Hefyd, bu gostyngiad mewn incwm a enillwyd trwy gyrsiau hyfforddi allanol oherwydd y penderfyniad i gyflwyno’r neges diogelwch tân cymunedol fel defnydd mwy effeithiol o adnoddau.

## Argymhelliad

17 Bod yr Aelodau’n nodi’r tanwariant amcangyfrifedig.